**LLANFAIR YN NEUBWLL COMMUNITY COUNCIL**

---

**Cofnodion Cyfarfod Ychwanegol y Cyngor - 6.00 pm, Nos Fawrth 20 Awst 2024**

**Yn bresennol:** Cynghorydd Celfyn Furlong – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, Sharon Parry, Einir Thomas, Gareth Thomas a Dyfed Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – clerc / SAC.

1. **Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd William Victor Owen ac Evan Wyn Robertson.

2. **Datganiad o Ddiddordeb**
Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen yn datgan diddordeb personol yn Neuadd.

3. **Ceisiadau Cynllunio**
FPL/2024/155 Y Stablau, Caergeiliog
Cais llawn am addasiadau ac estyniad i'r adeilad allanol ynghyd â'i drosi'n llety gwyliau hunanarlwyo - dim sylwadau.

4. **Neuadd y Pentref.**

4.1 Prydles – Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod â Chyfreithiwr y Cyngor i gadarnhau geiriad y les – disgwyl ymateb gan Gyfreithwyr Ymddiriedolwr y Neuadd.

4.2 Mynediad - Roedd Ymddiriedolwyr y Neuadd wedi derbyn grant ar gyfer tacluso'r grisiau ac ati ond roedd angen gosod 'edging markers' ar ymyl y steps – bydd yr Ymddiriedolwyr yn trefnu hyn mor fuan ag oedd bosib. Roedd y clerc wedi cyflwyno cais am grant ar gyfer gosod ramp yn seiliedig ar amcan bris gan D. Thomas, Rhos Ddu Llanfachraeth - cyfanswm cost o £9,404. Roedd hyn i'w drafod ymhellach unwaith daw cadarnhad o ganlyniad y cais.

4.3 To – dywedwyd fod angen atgyweiriadau brys i'r llechi, teils, y facia a'r gwteri. Amcangyfrif o'r gost - £1,600.00. hwn hefyd wedi'i gynnwys yn y cais am grant.

4.4 Cyflenwad Dŵr - byddai'r clerc yn cysylltu â Dŵr Cymru i drefnu cyflenwad newydd, cytunwyd i dalu'r ffi gychwynnol yn ôl yr angen.

4.5 Ffenestri – cafwyd amcan bris o £1650 ar gyfer tair ffenestr newydd ar gefn yr adeilad – hwn eto wedi'i gynnwys yn y cais am grant.

4.6 Gwresogi – angen system newydd – hwn i'w drafod.
4.6 Iechyd a Diogelwch – cytunwyd i ofyn i Wasanaeth Tân Môn am asesiad llawn o'r adeilad.
4.7 Asesiadau Risg - byddai'r clerc yn trefnu hyn.

4.8 Yswiriant – cytunwyd i yswirio'r adeilad yn seiliedig ar gost ailadeiladu'r llynedd gyda chwanegiad o 10% - polisi i ddechrau o ddyddiad trosglwyddo'r les. Cytunwyd bod yr yswiriant cynnwys presennol tua 25,000 yn uchel ond efallai y bydd gan yr yswirwyr

isafswm ar gyfer hyn. Yswiriant cyfredol yr Ymddiriedolwyr yn ddod i ben ar 26 Medi 2024.

4.9 Cyfleustodau - cytunwyd i ofyn i Dafydd Griffiths wneud gwiriad nwy, pob cyfleustodau i'w trosglwyddo cyn gynted ag y bydd y les wedi'i llofnodi. Taliadau i'w gwneud drwy ddebyd uniongyrchol.

4.10 Addurno Mewnol – I’w drafod, ond roedd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd wedi derbyn grant ar gyfer tacluso'r cyntedd.

4.11 Allweddi – roedd gan Cyng. Gwilym Jones a'r Clerc allweddi, allwedd sbâr wedi ei roi i Cyng. Furlong er mwyn iddo allu cyfarfod â Gwasanaeth Tân Môn.

4.12 Defnydd o’r Neuadd – archebion cyfredol i'w hanrhydeddu ond efallai y bydd angen dal yn ôl ar y rhain tra bod gwaith atgyweirio hanfodol yn cael ei wneud.

4.13 Taliadau gosod – i'w trafod

4.14 Glanhau – i'w drafod

4.15 Biniau – bin du yn cael ei storio yn yr adeilad ond efallai y bydd angen symud hwn, bin gwyrdd wedi'i ddifrodi. Byddai'r clerc yn gofyn am un newydd.

4.16 Gardd – rhan o’r ardd yn cael ei thorri’n gyson ond roedd peth gaith ar y rhan uchaf (amcan gost o £350). Cytunwyd i ddal ar hwn ond roedd angen ystyried y risg o anaf.

4.17 Ymgysylltu â'r Gymuned – Cytunwyd i gynnal digwyddiad agored unwaith ar ôl gwneud y gwaith cychwynnol.

4.18 ‘Broad Band’ – i'w drefnu cyn gynted ag y llofnodwyd y brydles.

**5. Cyfarfod nesaf - 17 Medi 2024**

: